Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Canlyniadau TGAU, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru 2013

## Awst 2013

## Cyflwyniad

Mae'r nodyn hwn yn rhoi trosolwg o ganlyniadau dros dro Safon Uwch a TGAU yng Nghymru yn 2013 ynghyd â chrynodeb o ganlyniadau Bagloriaeth Cymru a gyhoeddwyd yn ystod haf 2013. Caiff y canlyniadau eu cymharu â chanlyniadau 2012 a chanlyniadau Lloegr lle y bo'n gymwys.

## Nodiadau ar y data

Caiff myfyrwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon eu canlyniadau TGAU a Safon Uwch ar ddiwrnodau penodol ym mis Awst bob blwyddyn. Ar y diwrnodau hynny, mae'r Cyd-Gyngor Cymwysterau (CGC) yn cyhoeddi crynodebau o'r canlyniadau. (Mae'r CGC yn sefydliad i aelodau sy'n cynnwys y saith darparwr cymwysterau yn y DU.) Daw'r wybodaeth yn y Nodyn Ymchwil hwn o ddata'r CGC. Mae CBAC yn cyhoeddi canlyniadau ar gyfer Bagloriaeth Cymru ar wahân a chaiff y data hwn ei gynnwys hefyd.

Mae data'r CGC yn dangos canlyniadau cyfunol cofrestriadau'r cyrff dyfarnu sy'n aelodau. Dylid nodi bod canlyniadau'r CGC yn ymwneud â 'chofrestriadau' ac nid ag 'ymgeiswyr'. Felly, er enghraifft, gall y data ddangos bod perfformiad wedi gwella neu waethygu ar lefel Safon Uwch neu TGAU ac o fewn y graddau. Ni all ddangos a oes mwy o fechgyn neu ferched yn cael pum gradd TGAU neu fwy.

Data dros dro a gyflwynir, hynny yw mae'n cyfleu'r sefyllfa ar adeg cyhoeddi'r canlyniadau. Caiff y data ei wirio cyn i ddata terfynol ar lefel genedlaethol (Cymru), awdurdod lleol ac ysgol gael ei gyhoeddi.

Mae'r data yn y tablau isod yn cymharu canlyniadau ar gyfer 2012 a 2013. Caiff y gymhariaeth hon ei gwneud ar sail y data a gyhoeddwyd gan CGC ar ddiwrnod canlyniadau Safon Uwch 2012.

Mae'r data ar gyfer canlyniadau TGAU yn cymharu canlyniadau 2012 ar sail data diwygiedig a gyhoeddwyd gan CGC sy'n cynnwys canlyniadau a gyhoeddwyd ym mis Medi 2012 yn dilyn ailraddio Saesneg Iaith TGAU gan CBAC i ymgeiswyr yng Nghymru.

## Safon Uwch

Cyhoeddwyd data dros dro ar gyfer Safon Uwch ar 15 Awst 2013. Mae'r wybodaeth yn ymwneud â chofrestriadau ac nid ymgeiswyr.

**Cymharu 2012 a 2013:**

- Arhosodd y gyfradd basio gyffredinol yng Nghymru ar 97.6 y cant. Yn Lloegr cafwyd ychydig o gynnydd o 0.1 y cant;
- Roedd canran y cofrestriadau a gafodd raddau A*-C yn uwch yng Nghymru a Lloegr;
- Yng Nghymru, gwelwyd gostyngiadau yng nghanran y cofrestriadau a gafodd raddau A*-A. Yn yr un modd, yn Lloegr, gwelwyd gostyngiadau o ran y merched a phob cofrestriad gyda'i gilydd, gydag ychydig o gynnydd i fechgyn;
- Yn Lloegr, bu gostyngiadau yng nghanran y cofrestriadau a gafodd radd A*, ac er bod ychydig o ostyngiad yn y radd hon i fechgyn, ni fu unrhyw newid o ran y radd hon i ferched a phob cofrestriad.

**Bechgyn a merched:**

- Mae merched yn parhau i gael graddau gwell na bechgyn yng Nghymru a Lloegr, ac eithrio'r ganran sy'n cael A*;
- Mae'r bwlch o ran cyflawniad bechgyn a merched wedi lleihau yng Nghymru a Lloegr ers 2012, ac eithrio'r bwlch rhwng bechgyn a merched ar gyfer graddau A-A* yng Nghymru.

**Cymru a Lloegr:**

- Mae Lloegr yn parhau i gael gwell canlyniadau na Chymru.

Dengys Tablau 1 a 2 ganran y cofrestriadau ymhob pwnc yn ôl y radd a gafwyd yng Nghymru a Lloegr, cofrestriadau bechgyn a merched ac ar gyfer 2012 a 2013.

## Canlyniadau Safon Uwch

**Tabl 1: Canran y disgyblion a gafodd TAG Safon Uwch yn ôl gradd, 2012 (dros dro)**

| | Nifer y cofrestriadau | A* | A*-A | A*-C | A*-E |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | | | | | |
| Bechgyn | 16,521 | 6.3 | 22.9 | 71.5 | 96.9 |
| Merched | 20,629 | 5.8 | 24.1 | 77.8 | 98.0 |
| Pawb | 37,150 | 6.0 | 23.6 | 75.0 | 97.6 |
| **Lloegr** | | | | | |
| Bechgyn | 364,598 | 8.1 | 25.8 | 73.6 | 97.5 |
| Merched | 427,163 | 8.0 | 27.1 | 78.7 | 98.4 |
| Pawb | 791,761 | 8.0 | 26.5 | 76.4 | 98.0 |

Ffynhonnell: Y Cyd-Gyngor Cymwysterau, Canlyniadau Safon Uwch, Uwch Gyfannol a DUE Haf 2013

**Tabl 2: Canran y cofrestriadau a gafodd TAG Safon Uwch yn ôl gradd, 2013 (dros dro)**

| | Nifery cofrestriadau | A* | A*-A | A*-C | A*-E |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | | | | | |
| Bechgyn | 15,960 | 6.2 | 21.6 | 71.8 | 97.0 |
| Merched | 19,754 | 5.8 | 23.9 | 78.0 | 98.1 |
| Pawb | 35,714 | 6.0 | 22.9 | 75.2 | 97.6 |
| **Lloegr** | | | | | |
| Bechgyn | 358,531 | 8.0 | 26.0 | 74.3 | 97.7 |
| Merched | 423,671 | 7.4 | 26.6 | 79.2 | 98.5 |
| Pawb | 782,202 | 7.7 | 26.3 | 77.0 | 98.1 |

Ffynhonnell: Y Cyd-Gyngor Cymwysterau, Canlyniadau Safon Uwch, Uwch Gyfannol a DUE Haf 2013

# TGAU

Cyhoeddwyd data dros dro ar gyfer TGAU ar 22 Awst 2013. Mae'r data ar gyfer canlyniadau TGAU yn cymharu canlyniadau 2012 ar sail data diwygiedig a gyhoeddwyd gan CGC sy'n cynnwys canlyniadau a gyhoeddwyd ym mis **Medi 2012** yn dilyn ailraddio Saesneg Iaith TGAU gan CBAC i ymgeiswyr yng Nghymru, yn dilyn Cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd. Arweiniodd hyn at roi graddau diwygiedig i 2,386 o fyfyrwyr; cafodd 1,202 o fyfyrwyr raddau uwch o D i C; a newidiodd 598 o radd C i B. Caiff y data diwygiedig ei gynnwys yn y tablau ac isod.

**Cymharu 2012 a 2013**

- Yng Nghymru, mae graddau wedi gostwng ar raddau A* a graddau A*-C, 0.4 y cant a 0.1 y cant yn y drefn honno;
- Mae'r gyfradd basio gyffredinol (graddau A*-G) wedi aros yr un peth â 2012;
- Gwelir cynnydd bach o ran canlyniadau merched ar raddau A*-A ac A*-C (0.7 y cant a 0.3 y cant);
- Yn Lloegr mae canlyniadau ar bob lefel wedi gostwng.

**Bechgyn a merched**

- Mae merched yn parhau i gael gwell canlyniadau na bechgyn ar bob lefel yng Nghymru a Lloegr;
- Yng Nghymru, mae'r bwlch wedi tyfu ar bob lefel ac eithrio ar gyfer y gyfradd basio gyffredinol (A*-G) lle lleihaodd y bwlch 0.1 y cant o 0.5 y cant yn 2012.

**Cymru a Lloegr**

- Mae Lloegr yn parhau i gael gwell canlyniadau na Chymru. Fodd bynnag, yn 2013 mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad wedi lleihau.

Dengys Tablau 3 a 4 ganran y cofrestriadau ymhob pwnc yn ôl gradd yng Nghymru a Lloegr ar gyfer 2012 a 2013.

# Canlyniadau TGAU

**Tabl 3: Canran y cofrestriadau a gafodd TGAU yn ôl gradd, 2012 (dros dro)**

| | Nifer y cofrestriadau | A* | A*-A | A*-C | A*-G |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | | | | | |
| Bechgyn | 142,705 | 5.3 | 16.3 | 61.8 | 98.5 |
| Merched | 148,382 | 7.6 | 22.1 | 69.8 | 99.0 |
| Pawb | 291,087 | 6.5 | 19.2 | 65.8 | 98.7 |
| **Lloegr** | | | | | |
| Bechgyn | 2,334,595 | 6.0 | 19.0 | 65.4 | 98.8 |
| Merched | 2,428,252 | 8.7 | 25.6 | 73.3 | 99.2 |
| Pawb | 4,762,847 | 7.3 | 22.3 | 69.5 | 99.0 |

Ffynhonnell: Y Cyd-Gyngor Cymwysterau, Canlyniadau TGAU a Thystysgrif Lefel Mynediad Haf 2013

**Tabl 4: Canran y cofrestriadau a gafodd TGAU yn ôl gradd, 2013 (dros dro)**

| | Nifer y cofrestriadau | A* | A*-A | A*-C | A*-G |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | | | | | |
| Bechgyn | 138,926 | 4.6 | 15.4 | 61.1 | 98.5 |
| Merched | 145,073 | 7.6 | 22.8 | 70.1 | 98.9 |
| Pawb | 283,999 | 6.1 | 19.2 | 65.7 | 98.7 |
| **Lloegr** | | | | | |
| Bechgyn | 2,437,438 | 5.3 | 17.5 | 63.6 | 98.6 |
| Merched | 2,547,586 | 8.2 | 24.7 | 72.2 | 99.1 |
| Pawb | 4,985,024 | 6.8 | 21.2 | 67.9 | 98.8 |

Ffynhonnell: Y Cyd-Gyngor Cymwysterau, Canlyniadau TGAU a Thystysgrif Lefel Mynediad Haf 2013

## Bagloriaeth Cymru

Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar gael mewn ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant ledled Cymru. Caiff ei gynnig ar dair lefel, sef Sylfaen, Canolradd ac Uwch. Mae dwy ran i Gymhwyster Bagloriaeth Cymru; rhan 'Ddewisol' a'r 'Rhaglen Graidd'. Rhaid i'r rhan 'Ddewisol' gael ei chwblhau gan fyfyrwyr sy'n astudio ar gyfer pob lefel o Ddiploma Bagloriaeth Cymru, ac mae'n cynnwys dewisiadau o blith cyrsiau neu raglenni cymeradwy, sefydledig (er enghraifft TGAU, TGAU Alwedigaethol, Safon Uwch/UG, Safon Uwch Alwedigaethol

Mae'r 'Rhaglen Graidd' yn cynnwys astudiaethau datblygiad personol ac mae'n rhaid i'r myfyrwyr eu cwblhau law yn llaw â'u Dewisiadau. Yr elfennau yw:

- Sgiliau Allweddol;
- Cymru, Ewrop a'r Byd;
- Addysg Cysylltiedig â Gwaith;
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol;
- Ymchwiliad Unigol.

I gael Diploma, rhaid i ymgeiswyr fodloni gofynion y Dewisiadau a'r Rhaglen Graidd.

Ar lefel **Uwch**:

- Mae nifer yr ymgeiswyr sy'n cwblhau Bagloriaeth Cymru yn parhau i gynyddu.
- Bu gostyngiad bach yng nghanran yr ymgeiswyr a gafodd y Diploma Uwch, o 82.8 y cant yn 2012 i 82.7 y cant yn 2013;
- Bu cynnydd yng nghanran yr ymgeiswyr a gafodd y Dystysgrif Graidd, o 87.6 y cant i 88.4 y cant.

Ar lefel **Ganolradd**:

- Mae nifer yr ymgeiswyr sy'n cwblhau'r rhaglen yn parhau i gynyddu;
- Cafodd 79.3 y cant o ymgeiswyr y Diploma, sef cynnydd o 6.8 y cant o gymharu â 2012;
- Bu cynnydd hefyd yng nghanran yr ymgeiswyr a gafodd y Dystysgrif Graidd, o 81.7 y cant yn 2012 i 86.6 y cant yn 2013, sef cynnydd o 4.9 y cant.

Ar lefel **Sylfaen**:

- Gwelwyd lleihad yn nifer yr ymgeiswyr a gwblhaodd y rhaglen o 3,521 yn 2012 i 2,831 yn 2013;
- Cafodd 77 y cant o ymgeiswyr y Diploma o gymharu â 63.5 y cant yn 2012;
- Bu cynnydd o 11.6 y cant o ymgeiswyr yn cael y dystysgrif Graidd eleni.

Dengys Tablau 5, 6 a 7 isod ganlyniadau Haf 2013 a 2012.

# Canlyniadau Bagloriaeth Cymru

**Tabl 5: Dyfarniadau Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru, 2012 a 2013**

| | Haf 2012 | Haf 2013 |
|---|---|---|
| Ymgeiswyr a gwblhaodd y rhaglen | 9,978 | 10,362 |
| Ymgeiswyr a gafodd y Diploma Uwch | 8,259 (82.8%) | 8,565 (82.7%) |
| Ymgeiswyr a gafodd y Dystysgrif Graidd | 8,747 (87.6%) | 9,159 (88.4%) |

Ffynhonnell: Datganiad i'r Wasg CBAC

**Tabl 6: Dyfarniadau Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru, 2012 a 2013**

| | Haf 2012 | Haf 2013 |
|---|---|---|
| Ymgeiswyr a gwblhaodd y rhaglen | 9,940 | 13,491 |
| Ymgeiswyr a gafodd y Diploma Canolradd | 7,210 (72.5%) | 10,692 (79.3%) |
| Ymgeiswyr a gafodd y Dystysgrif Graidd | 8,119 (81.7%) | 11,677 (86.6%) |

Ffynhonnell: Datganiad i'r Wasg CBAC

**Tabl 7: Dyfarniadau Diploma Sylfaen Bagloriaeth Cymru, 2012 a 2013**

| | Haf 2012 | Haf 2013 |
|---|---|---|
| Ymgeiswyr a gwblhaodd y rhaglen | 3,521 | 2,831 |
| Ymgeiswyr a gafodd y Diploma Sylfaen | 2,236 (63.5%) | 2,180 (77.0%) |
| Ymgeiswyr a gafodd y Dystysgrif Graidd | 2,515 (71.4%) | 2,349 (83.0%) |

Ffynhonnell: Datganiad i'r Wasg CBAC

## Ffynonellau data

Data dros dro a gyflwynir, hynny yw mae'n cyfleu'r sefyllfa ar adeg cyhoeddi'r canlyniadau. Caiff y data ei wirio cyn i ddata terfynol ar lefel genedlaethol (Cymru), awdurdod lleol ac ysgol gael ei gyhoeddi.

Mae'r Cyd-Gyngor Cymwysterau (CGC) yn cyhoeddi data dros dro ar gyfer Dyfarniadau Safon Uwch, UG ac Uwch Estynedig ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ar wahân a gyda'i gilydd. Mae'n cynnwys gwybodaeth am ganlyniadau yn ôl gradd, rhyw a phwnc. Gellir ei weld, ar y cyd â chanlyniadau ar gyfer blynyddoedd blaenorol, **yma**. Mae'r CGC yn cyhoeddi data tebyg ar gyfer TGAU a Thystysgrifau Lefel Mynediad sydd ar gael **yma**. Mae'r CGC hefyd yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg penodol i Gymru. Mae'r rhain ar gael **yma** (Safon Uwch) ac **yma** (TGAU).

Mae CBAC hefyd yn cyhoeddi data ar gyfer Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru **yma** ac ar gyfer y Diploma Canolradd a Sylfaen **yma**.

Caiff rhywfaint o ddata ei gyhoeddi hefyd yn natganiadau i'r wasg Llywodraeth Cymru ar ddiwrnodau'r canlyniadau. Gellir gweld y rhain **yma** ar gyfer TGAU ac **yma** ar gyfer Safon Uwch.

Gellir gweld data 2012 ar gyfer Cymru, ar lefel awdurdod lleol yng nghyhoeddiad Cyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cymru, sef ***Ysgolion yng Nghymru: Perfformiad mewn arholiadau, 2012***. Disgwylir i ddatganiad tebyg yn cynnwys data ar gyfer 2013 gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2014. Bydd yn cynnwys data terfynol a all fod yn wahanol i'r hyn a nodir yn y papur hwn.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **ganlyniadau TGAU, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru**, cysylltwch â **Sian Hughes** (**sian.hughes@Wales.gov.uk**), Y Gwasanaeth Ymchwil.

**Gweler hefyd:**

- **Gwefan CGC**
- **Gwefan CBAC**
- **Ystadegau Llywodraeth Cymru**

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **assemblywales.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@wales.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd. **Ymholiad rhif: 13/2176**